**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru

22 Gorffennaf 2025

Annwyl Peredur,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Gorffennaf 2025 ynglŷn â'r adolygiad o Brotocol cyfredol Proses y Gyllideb, lle gwnaethoch fy ngwahodd i gadarnhau pa newidiadau hanfodol yr hoffwn eu gwneud i'r Protocol cyn y Senedd nesaf.

Rwy'n croesawu'r ymgysylltu adeiladol parhaus ar y Protocol, gan gynnwys ar lefel swyddogion, ac rwy'n falch o nodi bod nifer o'r cynigion yr ydym wedi'u trafod o'r blaen wedi cael eu mabwysiadu'n anffurfiol, megis y ddadl cyn yr haf a sesiynau'r Pwyllgor ar y gyllideb yn yr hydref cyn y broses graffu. Mae yna gynigion eraill y gall fod yn bosibl i ni eu mabwysiadu heb adolygu'r Protocol a gwneud newidiadau i Reolau Sefydlog.

Un o gryfderau'r Protocol yw sut mae'n caniatáu cryn dipyn o hyblygrwydd i'r Senedd a Gweinidogion Llywodraeth Cymru addasu i newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar ein proses gyllideb. Nid wyf yn gweld unrhyw reswm i beidio â pharhau â threfniadau anffurfiol o'r fath ar gyfer gweddill tymor y Senedd, yn enwedig oherwydd gall yr hyblygrwydd hwn fod yn ddefnyddiol wrth i ni agosáu at etholiad nesaf y Senedd. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd angen gwneud newidiadau i'r Protocol ac i'r Rheolau Sefydlog o ganlyniad i gael Senedd fwy. Rwy'n credu y byddai angen i'r Senedd newydd gytuno ar unrhyw newidiadau fel un pecyn cyfunol o newidiadau. Gallai hyn gynnwys y mân gywiriadau angenrheidiol i'r iaith yn y Protocol, megis adlewyrchu'r newid o 'Cynulliad' i 'Senedd'.

Byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod, fodd bynnag, a fyddai'r Pwyllgor Cyllid o'r farn ei bod yn hanfodol i unrhyw un o'r cynigion a wnaed hyd yma gael eu cymeradwyo cyn i'r Senedd newydd gael ei hethol.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd eich llythyr yn gofyn imi roi sylw yn arbennig i'r newidiadau arfaethedig i'r gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol a'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, ac, yn benodol, y newid a gynigiwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar 28 Mawrth 2025. Er y gallwn weld gwerth mewn ffurfioli elfennau o'r cynigion, nid wyf yn credu ei bod yn hanfodol gwneud unrhyw un o'r newidiadau cyn i'r pecyn mwy cynhwysfawr o newidiadau gael ei ystyried gan y Senedd newydd.

Roedd eich llythyr hefyd yn gofyn am ddiweddariad ar yr adolygiad statudol o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru (Pŵer i Addasu) 2022. Fe wnes i gyfarfod â chi ar 17 Gorffennaf i drafod y ddau fater tymor hwy yn ymwneud â threthi datganoledig yr wyf yn bwrw ymlaen â nhw: bil cynnal trethi arfaethedig ar gyfer blwyddyn gyntaf y Senedd nesaf a'r papur gwyrdd. Y Llywodraeth nesaf fydd yn penderfynu ar ffurf y Protocol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r papur gwyrdd yn ceisio barn ar sawl opsiwn ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru - un ohonynt yn newid a allai effeithio'n uniongyrchol ar y Protocol (bil sydd â chysylltiad agos â'n cyllideb), a newidiadau eraill na fyddent o bosibl yn cael cymaint o effaith arno. Yn y cyfamser, rwy'n dal wedi ymrwymo i gadw cysylltiad agos â'r Pwyllgor ynglŷn â'r materion hyn a materion eraill. Roeddwn i am ddiolch i chi ac i aelodau'r Pwyllgor am naws y trafodaethau wrth i'r broses graffu fynd rhagddi dros y cyfnod prysur iawn ers mis Medi y llynedd.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language